**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1163
Ein cyf/Our ref JMEWL/11355/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Hydref ynghylch estyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru.

Rwy'n deall bod y Pwyllgor yn siomedig nad yw'r fframwaith deddfwriaethol yn caniatáu i bob myfyriwr allu cael gafael ar y fwrsariaeth STEMM. Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r meini prawf cymhwysedd fel y'u nodir yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 (Rheoliadau 2019), fel y'u diwygir. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r sefyllfa polisi ar hyn.

Ers 1 Awst 2017, mae dynodiad awtomatig cyrsiau addysg uwch amser llawn yn gymwys dim ond i gyrsiau a ddarperir gan 'sefydliadau addysgol cydnabyddedig'. Diffinnir 'sefydliad addysgol cydnabyddedig' fel a ganlyn:

- sefydliad rheoleiddiedig Cymreig, sef sefydliad a chanddo gynllun ffioedd a mynediad a gymeradwyir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan adran 7 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 tra bod y cynllun hwnnw yn parhau mewn grym
- sefydliad rheoleiddiedig Seisnig, sef sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd gan y Swyddfa Fyfyrwyr
- sefydliad yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd cyhoeddus

Mae'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r categori hwn yn cael eu hystyried yn ddarparwyr amgen a rhaid iddynt wneud cais am ddynodiad penodol er mwyn i fyfyrwyr allu gwneud cais am gymorth i fyfyrwyr. Mae'r opsiwn hwn ar gael i bob darparwr amgen cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf.

Rwy'n deall nad dyma'r ymateb yr oedd y Pwyllgor Deisebau am ei gael. Er hynny, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i ddiogelu arian trethdalwyr. Rhaid inni allu cadarnhau y gall pob darparwr a chwrs ddangos eu bod yn bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhai yn ymwneud â hyfywedd ariannol, ansawdd darpariaeth a chyfrannu at les y cyhoedd. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ei sicrhau ei hun y gall darparwyr fodloni'r meini prawf hyn er lles myfyrwyr hefyd.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language